**Eitem ar yr agenda: 3**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gynhaliwyd ddydd Llun 5ed Mawrth 2007 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

**Yn bresennol:**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); D G Roberts (Rheolwr Prosiect y System Dyletswydd Rhan Amser); R Jones (Rheolwr Cefnogol Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddog) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

### 1) Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau nad oedd eitemau wedi cael eu cyflwyno iddo ef na'r Clerc am ystyriaeth.

Gofynnodd y Cadeirydd am farn y Panel ar gynrychiolaeth yr Awdurdod yng Nghynhadledd Tân Flynyddol y Gymdeithas Llywodraeth Leol oedd i'w chynnal yn Peterborough rhwng 13eg a 14eg Mawrth 2007. Gwnaed penderfyniad yn y gorffennol mai'r Prif Swyddog Tân a'r Cadeirydd yn unig oedd i fynychu'r Gynhadledd hon, roedd hyn i'r gwrthwyneb i'r trefniadau ar gyfer mynychu'r Gynhadledd Dân flynyddol oedd yn caniatáu i'r Prif Swyddog Tân, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd fynychu. Eglurodd y Cadeirydd ei bod, yn ei farn ef, yn bwysig i'r Is-Gadeirydd gael y cyfle i fynychu Cynhadledd Dân y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel rhan o'i ddatblygiad personol. Roedd yr aelodau yn cytuno gyda'r farn hon a:

***<u>Penderfynwyd</u>: - caniatáu i'r Is-Gadeirydd fynychu Cynhadledd Dân Flynyddol y Gymdeithas Llywodraeth Leol 2007 gyda'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân neu ei gynrychiolydd.***

**Trasiedi Rheilffordd Johnstown:** hysbyswyd yr aelodau gan y Cadeirydd fod gweithredoedd personél y Gwasanaeth o orsafoedd tân Johnstown a Wrecsam a ymatebodd i ddigwyddiad lle bu farw merch ifanc ar ôl cael ei tharo gan drên, wedi derbyn canmoliaeth gan yr Arolygydd Derek Cheetham o'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Roedd y Cadeirydd yn gobeithio y byddai, erbyn cyfarfod yr Awdurdod ar 19eg Mawrth 2007, wedi derbyn llythyr cydnabyddiaeth i'r Gwasanaeth oddi wrth yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 24ain Ionawr 2007

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

## 4) Materion yn Codi

Roedd y materion hyn yn codi o'r cofnodion:

**Tudalen 9, Eitem 12a) – Larymau Mwg/Tân mewn Tanau yn y Cartref:** Hysbysodd yr Is-Gadeirydd yr aelodau ei fod, yn dilyn ei sylwadau ar yr eitem fusnes hon yn y cyfarfod blaenorol, wedi cwrdd â Phrif Swyddog Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i godi'r mater o osod larymau mwg/tân mewn cartrefi sydd ym mherchnogaeth y cyngor. Roedd y Prif Swyddog Tai wedi ei sicrhau y byddai'n cysylltu â'r Gwasanaeth gyda golwg ar ddatrys y broblem. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân iddo dderbyn cais am gyfarfod.

**Tudalen 10, Eitem 12a) – Larymau Mwg/Tân mewn Tanau mewn Cartrefi (penderfyniad):** Mewn ateb i gwestiwn gan y Cynghorydd John Smith, fe hysbysodd y Cadeirydd y Panel fod yr aelodau canlynol wedi cael eu penodi i wasanaethu fel Hyrwyddwyr Diogelwch Tân Cymunedol: Cynghorydd John Smith, Sir Ddinbych; Cynghorydd Ted Evans, Sir y Fflint; Cynghorydd Trevor Roberts, Gwynedd; Cynghorydd Ted George, Wrecsam a'r Cynghorydd John Chorlton, Ynys Môn. Byddai 'Hyrwyddwr' Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael ei gadarnhau o flaen cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Mawrth. Dywedodd y Cadeirydd y byddai, yn y cyfarfod hwnnw, yn gofyn i'r 'Hyrwyddwyr' bennu dyddiad eu cyfarfod cyntaf.

**5) Cynigion ar gyfer y Cynllun Lleihau Risg Drafft 2008/09**

Roedd Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg yn ei gyfarfod ar 30ain Ionawr 2007 wedi ymchwilio i feysydd i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod 2008/09. Yn y cyfarfod dilynol, a gynhaliwyd cyn y cyfarfod presennol o'r Panel Gweithredol, roedd y Gweithgor wedi ystyried data a ffigyrau mewn perthynas â sut allai'r Gwasanaeth wella ymhellach ei strategaethau atal, amddiffyn, ymyrryd, a pherfformiad a rheoli risg. Roedd wedi llunio nifer o gynigion i'r Panel Gweithredol eu hargymell i'r Awdurdod Tân ac Achub eu cynnwys yn ei Gynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft ar gyfer 2008/09. Yn dilyn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd a'r cynigion gyflwynwyd:

***<u>Penderfynwyd</u>: argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub y dylai gynnwys yr argymhellion canlynol yng Nghynllun Gweithredu drafft diwygiedig ei Gynllun Lleihau Risg ar gyfer 2008/09;***

- ***i*** ***manylion o strategaeth diogelwch tân cymunedol dwys diwygiedig gyda golwg ar ostwng y nifer o farwolaethau oherwydd tân;***
- ***ii*** ***manylion o'r ymgynghoriad fyddai'n cychwyn ar gynigion i gyflwyno polisi cadarn i ostwng y nifer o alwadau diangen o larymau tân awtomatig, yn cynnwys cynnig i weithredu rhaglen gofrestru flaengar i systemau larwm tân awtomatig lle byddai'r Gwasanaeth yn casglu gwybodaeth ar faint a sgôp y systemau larymau tân awtomatig a'r risgiau y maent yn eu hamddiffyn. Yna, gallai'r Gwasanaeth roi Rhif Cyfeirnod Unigryw (URN) a fyddai'n cael ei ddefnyddio gan safleoedd i adnabod y system pan fyddai arwyddion tân yn cael eu trosglwyddo i Ystafell Reoli'r Gwasanaeth;***
- ***iii*** ***manylion o'r adolygiad fyddai'n cychwyn i'r ddarpariaeth Swyddog Gweithredol, Tactegol a Strategol wrth gefn ar draws y Gwasanaeth a'r adolygiad fyddai'n cael ei ymgymryd ar restru criwiau tân gyda golwg ar gynyddu argaeledd yn yr orsaf;***
- ***iv*** ***manylion ynglŷn a gwella'r fframwaith rheoli perfformiad a threfniadau rheoli risg y Gwasanaeth;***
- ***v*** ***yn y cyfamser, cyn cychwyn y cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus, yr Awdurdod i gychwyn trafodaeth anffurfiol ar ei gynigion gyda Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth y Cynulliad; a***
- ***vi*** ***bod y Cynllun Gweithredu drafft ar gyfer 2008/09, yn cynnwys costau/arbedion effeithlonrwydd amcangyfrifedig posib, i gael ei gyflwyno***

***i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 18fed Mehefin 2007 i'w gymeradwyo at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus.***

Yn ystod trafodaeth ar yr eitem fusnes uchod, fe ddatganodd y Cynghorydd J A Roberts ddiddordeb personol yn y drafodaeth oedd yn gysylltiedig ag adolygu'r ddarpariaeth swyddogion wrth gefn, gan fod ei frawd yn swyddog gyda'r Gwasanaeth ar y System Dyletswydd Hyblyg ac yn darparu gwasanaeth swyddog gweithredol wrth gefn. Fe ildiodd o weddill y drafodaeth ar yr adolygiad o'r swyddogion wrth gefn.

**6) Ymgynghoriad ar 'Creu'r Cysylltiadau – Byrddau Gwasanaethau Lleol yng Nghymru'**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad ac atodiadau (a ddosbarthwyd o flaen llaw), oedd yn cynnwys ymateb drafft i ddogfen ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Creu'r Cysylltiadau – Byrddau Gwasanaethau Lleol yng Nghymru' er ystyriaeth yr aelodau. Eglurodd fod yr adroddiad yn crynhoi cynnwys y ddogfen ymgynghorol a diolchodd i'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) a'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol am eu cyfraniadau i'r adroddiad cyn parhau i fanylu'r pwyntiau amlygwyd oddi mewn iddo. Cynghorwyd aelodau'r Panel gan y Clerc, gan fod y Gwasanaeth eisoes yn cyfranogi mewn ystod eang o bartneriaethau strategol cymunedol a lleol, na ddylai fod gan yr Awdurdod unrhyw wrthwynebiad i dderbyn dyletswydd i gyfranogi yn y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Aeth yn ei flaen i egluro gan y byddai'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn cael eu gweld fel rhan annatod o lywodraeth cyfunedig gan Lywodraeth y Cynulliad, oedd â'r nod eithaf i wella'r cyflwyniad o wasanaethau, y byddai yn hanfodol i awdurdodau tân ac achub gael eu cynrychioli ar y Byrddau hyn wedi iddynt gael eu sefydlu. Felly, roedd gofyn i'r aelodau benderfynu ar lefel ddisgwyliedig o gynrychiolaeth/cynhwysiad yr Awdurdod/Gwasanaeth ar y Byrddau. Hefyd gofynnodd y Clerc i'r aelodau gadw mewn cof, gan y byddai un Bwrdd ym mhob ardal unedol, na fyddai'n ymarferol i'r Cadeirydd neu Is-Gadeirydd fod yn gynrychiolwyr ar bob Bwrdd. Byddai hefyd yn bwysig i gynrychiolwyr yr Awdurdod gofio, wrth wasanaethu ar Fwrdd Gwasanaethau Lleol, y byddant yno yn rhinwedd eu swydd ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, nid fel cynrychiolydd eu cyngor eu hunain a felly, os byddai gwrthdaro'n codi, y dylent hyrwyddo ac amddiffyn diddordebau'r awdurdod tân ac achub. Roedd yr Is-Gadeirydd o'r farn ei bod yn hanfodol, yn wahanol i'r mwyafrif o'r cyrff partneriaethau presennol megis Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, i aelodau yn ogystal â swyddogion wasanaethau ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol, neu dim ond cwangos fyddent. Hysbyswyd aelodau'r panel gan y Prif Swyddog Tân y byddai'n edrych am gael cynrychiolydd o'r Gwasanaeth ar lefel Prif Swyddog i wasanaethu ar y Byrddau hyn. Yn dilyn argymhelliad gan yr Is-Gadeirydd, a eiliwyd:

***<u>Penderfynwyd:</u> - cymeradwyo'r ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 'Creu'r Cysylltiadau – Byrddau Gwasanaethau Lleol yng Nghymru' fel a ddrafftiwyd gan gynnwys cyfeiriad at farn yr Awdurdod y dylai gael ei gynrychioli gan un o aelodau ei Banel Gweithredol ar bob Bwrdd Gwasanaeth***

***Lleol ac, at ddibenion cefnogaeth, y dylai Prif Swyddog o'r Gwasanaeth fynd gyda hwy.***

**7) Materion Brys**

Dim materion brys.

**8) Dyddiad(au) cyfarfodydd yn y dyfodol**

Yn dilyn trafodaeth:

***Penderfynwyd:*** ***- y dylid cynnal cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol am 2 o'r gloch y prynhawn ddydd Llun 21ain Mai 2007. Y cyfarfod hwn i'w ragflaenu gan gyfarfod o Weithgor y Cynllun Lleihau Risg. Y ddau gyfarfod i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy.***

**RHAN II**

Dim busnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.25pm.